# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 15 Gorffennaf 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(281)v3

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys 1**
**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol am Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio?

**Cwestiwn Brys 2**
**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y pryderon newydd a godwyd gan berthnasau cleifion Tawel Fan ynghylch cyfathrebu gwael a diffyg cynydd o ran ymcwhiliadau'r bwrdd iechyd hyd yma?

**3 Dadl ar yr Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol**

**Comisiwn y Cynulliad (60 munud)**
**NDM5818 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraff 8(8) o Atodlen 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

Yn nodi'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol y Comisiwn y Cynulliad, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Gorffennaf 2015.

**4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**
**NDM5789**

**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**
**Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**
**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant cymorth cyntaf arbenigol ar gyfer staff meithrin, fel bod ganddynt y sgiliau a'r hyfforddiant i ymateb yn gyflym ac yn briodol os bydd argyfwng.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r ddarpariaeth o hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig i staff meithrinfeydd ac asesu opsiynau ar gyfer ei gwneud yn ofynnol bod yr holl staff sy'n gweithio mewn meithrinfeydd yn cwblhau cwrs cymorth cyntaf pediatrig a gydnabyddir yn swyddogol.

**Cefnogir gan:**

Eluned Parrott (Canol De Cymru)

**5 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5817 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r anawsterau difrifol sy'n wynebu'r sectorau cig coch a llaeth yng Nghymru.

2. Yn gresynu at y dirywiad ym mhris wrth gât y fferm llaeth a chig oen.

3. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth y DU i ddiwygio'r ardoll cig coch.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) defnyddio'r Rhaglen Datblygu Gwledig i ddarparu cefnogaeth ar unwaith i'r sectorau a'r busnesau yr effeithir arnynt fwyaf;

b) amddiffyn ffermwyr Cymru rhag anwadalrwydd y marchnadoedd byd-eang drwy gryfhau cadwyni cyflenwi domestig;

c) gwneud sylwadau brys i Lywodraeth y DU gyda'r bwriad o gyflwyno system ddosbarthu ardoll cig coch decach; a

d) gweithio tuag at gynnal blwyddyn cenedlaethol bwyd a diod Cymru fel canolbwynt ar gyfer hyrwyddo cynnyrch Cymreig ar lefel ddomestig a rhyngwladol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddiwygio'r ardoll hybu cig.

*[os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod yr angen brys i ddiwygio'r ardoll cig coch ac yn croesawu'r gwaith gan Fforwm y Diwydiant Cig Coch i ddatblygu cynigion ar gyfer ailddosbarthu ardoll hon.

**Gwelliant 3 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddechrau isbwynt 4(c):

'rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Fforwm y Diwydiant Cig Coch a'

**Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys isbwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

'Yn sefydlu gwobrau bwyd a diod newydd i Gymru i ddarparu meincnod cydnabyddedig o ragoriaeth o ran ansawdd i gynhyrchwyr a helpu i godi proffil bwyd a diod o Gymru yn y DU a thramor.'

**Gwelliant 5 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau lladd-dy cig eidion a chig oen wedi'i leoli yng ngogledd Cymru i sicrhau cynaliadwyedd hir dymor cynhyrchu cig coch yng Ngogledd Cymru.

**Gwelliant 6 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am god ymarfer gwirfoddol ar gyfer archfarchnadoedd a siopau i neilltuo rhan o'u lloriau i gefnogi a hyrwyddo statws dynodiad daearyddol gwarchodedig o Gymru a chig tractor coch Prydeinig.

**Gwelliant 7 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'n sylweddol y canran o'r cynnyrch a gaffelir yn gyhoeddus sy'n dod o Gymru.

**Gwelliant 8 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu argymhellion adolygiad Richardson o'r sector llaeth yn ddi-oed.

Mae'r Adolygiad Richardson ar gael yn:

http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farmcountrypublicationindex/independent-review-dairy-sector/?skip=1&lang=cy

**Gwelliant 9 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ymestyn labelu gwlad tarddiad gorfodol i'r sector llaeth.

**6 Cyfnod pleidleisio**

**7 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5816 Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**

Atal sgamiau yng Nghymru: camau y gellir eu cymryd i atal pobl rhag bod yn destun sgamiau.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 15 Medi 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 8 Gorffennaf 2015 i'w hateb ar 15 Gorffennaf 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cwymp diweddar yn y pris a delir i ffermwyr am nifer o fathau o gynnyrch amaethyddol? OAQ(4)0334(NR)**W**

**2. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i reoli TB buchol yng Nghymru? OAQ(4)0344(NR)**W**

**3. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faint o'r 19 o argymhellion o fewn adroddiad Hwyluso'r Drefn a gaiff eu cyflawni erbyn diwedd y mis hwn? OAQ(4)0336(NR)**W**

**4. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â llysiau'r dial? OAQ(4)0328(NR)

**5. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid grant craidd diweddar a roddwyd i raglen gweithredu'r cynllun gwastraff ac adnoddau (WRAP Cymru)? OAQ(4)0337(NR)

**6. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau rheoli llifogydd Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0326(NR)

**7. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar waredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol? OAQ(4)0339(NR)**W**

**8. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y nodau strategol y mae wedi'u rhoi ar waith ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru? OAQ(4)0340(NR)

**9. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod draenogod y môr? OAQ(4)0335(NR)

**10. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa drafodaethau y mae ei adran wedi'u cael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch gweithredu datganiadau ardal? OAQ(4)0331(NR)

**11. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith amgylcheddol cloddio glo brig yng Nghymru? OAQ(4)0329(NR)

**12. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i leihau faint o wastraff a gaiff ei gynhyrchu yng Nghymru? OAQ(4)0345(NR)

**13. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog nodi a oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud tuag at gynllun lliniaru llifogydd yr Wyddgrug? OAQ(4)0332(NR)

**14. Gwyn Price (Islwyn):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i leihau'r bygythiad o glefyd i blanhigion a choed yng Nghymru? OAQ(4)0341(NR)

**15. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dlodi tanwydd yng Nghymru? OAQ(4)0342(NR)

## Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch adeiladau ysgol a choleg ledled Cymru? OAQ(4)0613(ESK)

**2. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr argymhellion yn yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus? OAQ(4)0599(ESK)

**3. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith ieuenctid yng Nghymru? OAQ(4)0611(ESK)**W**

**4. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Her Ysgolion Cymru? OAQ(4)0596(ESK)

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad y lefel o gyllid a ddarperir i bob disgybl yn ysgolion Cymru? OAQ(4)0610(ESK)

**6. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu cyllid ysgolion? OAQ(4)0598(ESK)

**7. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg Gymraeg yn Sir y Fflint? OAQ(4)0609(ESK)**W**

**8. David Rees (Aberafan):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag arweinwyr diwydiannol i nodi'r sgiliau gweithlu sydd eu hangen i gynnal gweithgynhyrchu fel sector graidd yng Nghymru? OAQ(4)0608(ESK)

**9. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae'n sicrhau bod awdurdodau addysg lleol yn diogelu ysgolion rhag toriadau yn y gyllideb awdurdodau lleol? OAQ(4)0607(ESK)

**10. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag arweinwyr awdurdodau lleol ynghylch dyddiadau tymor ysgol a gwyliau? OAQ(4)0600(ESK)

**11. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am welliannau maethol i brydau ysgol? OAQ(4)0603(ESK)

**12. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n rhoi sylw dyledus i ofynion Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag addysg? OAQ(4)0597(ESK)

**13. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu'r nifer sy'n derbyn datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon a'r ddarpariaeth ohono? OAQ(4)0612(ESK)

**14. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg dinasyddiaeth fyd-eang yng Nghymru? OAQ(4)0606(ESK)

**15. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer sefydliadau addysg uwch yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0604(ESK)